Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Talyllychau
# Llandeilo
# Sir Gaerfyrddin
# SA19 7YH

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

Buddsoddwyr Mewn Pobl | Aur

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 04/12/2012**

## Cyd-destun

Lleolir yr ysgol ym mhentref gwledig Talyllychau ger tref Llandeilo yn Sir Gaerfyrddin. Gwasanaetha'r ysgol y pentref a'r ardal gyfagos.

Mae 40 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol.  Bu niferoedd y disgyblion yn weddol gyson dros y tair blynedd diwethaf.

Cymraeg yw prif gyfrwng iaith yr ysgol ac anelir at sicrhau bod y disgyblion yn gwbl ddwyieithog erbyn iddynt drosglwyddo i'r sector uwchradd.  Daw 5% o'r disgyblion o aelwydydd Cymraeg.  Nid oes unrhyw ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.

Mae 21% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n cyfateb i'r ffigwr cenedlaethol.  Mae 35% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysgol ychwanegol, sy'n uwch na'r ffigwr cenedlaethol, ond nid oes unrhyw ddisgybl ar ddatganiad o anghenion addysgol arbennig.  Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau parhaol na thros dro yn y flwyddyn cyn yr arolygiad.

Mae'r pennaeth presennol yn ei swydd ers Ionawr 2011.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Talyllychau yn 2012-2013 yw £3,451.  Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Sir Gaerfyrddin yw £25,997 a'r lleiafswm yw £3,005.  Mae Ysgol Talyllychau yn safle 75 o'r 107 ysgol gynradd yn Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Digonol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Digonol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol Ysgol Talyllychau yn ddigonol gan fod:

- medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn;
- mwyafrif y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol;
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar; a bod
- yr ysgol yn trefnu darpariaeth effeithiol i helpu disgyblion unigol a grwpiau sydd ag angen cymorth ychwanegol.

Er hynny:

- ym mwyafrif y dangosyddion, mae canlyniadau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, a chyfartaledd Cymru dros gyfnod o bum mlynedd;
- nid yw mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwneud digon o gynnydd mewn ysgrifennu;
- mae canran presenoldeb y disgyblion yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg; ac
- nid yw'r cwricwlwm cenedlaethol cyflawn wedi datblygu'n llawn yng nghyfnod allweddol 2.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella Ysgol Talyllychau yn ddigonol gan fod:

- staff yr ysgol yn cydweithio'n dda ac mae ymdeimlad cryf o dîm yn bodoli;
- mae partneriaeth dda rhwng yr ysgol a'r rhieni.

Er hynny:

- nid yw rôl y llywodraethwyr wedi datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad;
- nid yw'r ysgol yn defnyddio data yn ddigon effeithiol i osod targedau heriol a meintiol er mwyn codi safonau; a
- nid yw arweinyddion yr ysgol yn monitro'r cynlluniau'n ddigon manwl i sicrhau bod y disgyblion yn derbyn y cwricwlwm cyflawn yng nghyfnod allweddol 2.

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gynnydd mewn gwaith ysgrifenedig yn y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2.

A2 Gwella’r ymateb i waith ysgrifenedig disgyblion er mwyn rhoi arweiniad penodol ar sut i wella eu gwaith.

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys yng nghyfnod allweddol 2.

A4 Defnyddio asesiadau yn fwy cyson ac yn fwy effeithiol i olrhain cyflawniad a chynnydd disgyblion.

A5 Cryfhau'r gweithdrefnau arweinyddiaeth strategol er mwyn sicrhau ffocws ar godi safonau.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae mwyafrif y disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n dda yn y gwersi. Mae'r mwyafrif yn cyfrannu'n effeithiol mewn trafodaethau ac yn defnyddio ystod o eirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae medrau llafar y disgyblion a ddaw o gartrefi di-Gymraeg yn datblygu'n fuan iawn. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfathrebu'n effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Cyfrannant yn frwdfrydig mewn trafodaethau dosbarth gan ddefnyddio geirfa addas o fewn cyd-destun penodol.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae mwyafrif y disgyblion yn darllen testunau syml yn gywir gan ddefnyddio strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae lleiafrif yn darllen gyda mynegiant gan ddefnyddio geirfa briodol wrth drafod cynnwys y llyfr a sôn am gymeriadau. Yng nghyfnod allweddol 2, yn Saesneg, mae mwyafrif yn datblygu'n ddarllenwyr annibynnol ac yn dangos hoffter at ddarllen. Er hynny, araf yw datblygiad lleiafrif ohonynt yn y Gymraeg.

Mae'r disgyblion sy'n derbyn cymorth ychwanegol i ddatblygu eu medrau darllen yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd priodol yn eu gallu i ysgrifennu'n annibynnol. Maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau syml gan ddefnyddio geirfa benodol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae tua hanner ohonynt yn gallu ysgrifennu dilyniant o frawddegau'n annibynnol gan ddangos dealltwriaeth o atalnodi sylfaenol. Er hynny, nid yw lleiafrif o'r disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ysgrifennu'n rhydd.

Gall y mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ysgrifennu mewn amrywiaeth o ffurfiau yn y ddwy iaith. Yn Saesneg, mae mwyafrif ohonynt yn defnyddio atalnodi cywir, ac yn datblygu eu hysgrifennu i wahanol gynulleidfaoedd yn effeithiol. Er hynny, nid yw safonau ysgrifennu y rhan fwyaf o'r disgyblion wedi datblygu cystal yn y Gymraeg. Mae tua hanner y disgyblion yn defnyddio cystrawennau chwithig ac mae diffyg geirfa a gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio ysgrifennu rhydd. Nid yw disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud defnydd effeithiol o ailddrafftio i wella eu hymdrechion cyntaf. Nid yw'r gallu i ysgrifennu'n estynedig wedi ei ddatblygu'n llawn ar draws ystod o bynciau. Lleiafrif o'r disgyblion sy'n gwneud digon o gynnydd mewn ysgrifennu yn y Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o'r disgyblion yn flêr.

Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn canolbwyntio'n briodol ac yn dwyn i gof eu dysgu blaenorol. Maent yn cydweithio'n dda â'i gilydd ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a gyflwynwyd iddynt. Mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Nid yw cyflawniad y disgyblion sy'n cyrraedd y deilliant disgwyliedig (Deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda gydag ysgolion y teulu, nac ychwaith ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% isaf mewn medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ac mewn datblygiad mathemategol.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg wedi bod yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf, tra mae'r canran a gyflawnodd lefel 4 mewn Saesneg wedi bod yn is am dair o'r pum mlynedd hynny. Mae perfformiad mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn sylweddol is na ffigyrau teulu a Chymru am gyfnod o amser. Tebyg yw'r patrwm yn y Saesneg.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ( lefel 4) mewn mathemateg a gwyddoniaeth yn cymharu'n dda iawn ag ysgolion y teulu ac yn gyffredinol yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Mae'r cyflawniadau ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg, Saesneg a mathemateg yn sylweddol is na chyfartaleddau'r teulu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Serch hynny, mae'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 2 wedi perfformio'n well na'r merched ar y lefel uwch (lefel 5) mewn gwyddoniaeth dros gyfnod o amser.

Mae cyflawniad y disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim yn perfformio cystal â gweddill y disgyblion.

**Lles: Da**

Mae ymddygiad y mwyafrif y disgyblion yn dda ac maent yn ofalgar o'i gilydd ar fuarth yr ysgol. Maent yn gwrtais gydag oedolion ac ymwelwyr. Mae pob plentyn yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd byw yn iach a chadw'n heini trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol megis cystadlaethau chwaraeon, nofio a Champau'r Ddraig.

Yn y gwersi, mae'r rhan fwyaf ar dasg am gyfnodau penodol ac yn ymateb yn briodol i'r gweithgareddau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu i fod yn annibynnol yn eu gwaith.

Mae'r cyngor ysgol yn weithgar ac effeithiol ac yn cyfrannu at fywyd yr ysgol. Mae'r aelodau yn cydweithio'n dda gyda'u cyfoedion ac yn cyfathrebu'n briodol wrth wneud penderfyniadau. Enghraifft o hyn yw'r gwaith a wnaeth y disgyblion i sefydlu siop ffrwythau yn yr ysgol yn ogystal â chael marciau ar y buarth i hybu ffitrwydd a lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhan bwysig o'r gymuned leol ac mae disgyblion yn cefnogi nifer o weithgareddau cymdeithasol a chrefyddol i hybu eu dealltwriaeth o'r gymuned ehangach ac i ddatblygu medrau bywyd.

Mae'r cyfraddau presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf o gymharu ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith yn eu lle. Cynllunnir cyfleoedd a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb y rhan fwyaf o'r disgyblion. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer medrau rhifedd ac ysgrifennu wedi ei chynllunio'n ddigonol ar draws ystod o bynciau. Nid yw'r ysgol yn sicrhau amser dyledus i gyflwyno cwricwlwm cyflawn yng nghyfnod allweddol 2.

Darperir amrywiaeth o ymweliadau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfrannu'n dda at ddatblygiad personol a chyfoethogi profiadau dysgu.

Mae disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau o fewn y pentref a thu hwnt yn gyson ac yn elwa o ymweliadau gan aelodau o'r gymuned leol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn cael sylw priodol yn y cynllunio. Trwy waith thematig, mynychu perfformiadau Cymreig a chystadlu yn eisteddfod yr Urdd, mae'r cyfleoedd hyn yn cyfoethogi profiadau'r disgyblion o ddiwylliant Cymru.

Mae'r ysgol yn hybu datblygiadau cynaliadwy sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth y disgyblion o gynaliadwyedd. Trwy ailgylchu a chompostio mae disgyblion yn dod yn ymwybodol o'r angen i ofalu am y byd. Felly hefyd eu gwaith yn plannu llysiau a blodau a gweithio yn yr ardd gymunedol leol.

Mae'r ysgol yn hybu amrywiaeth ddiwylliannol yn briodol drwy ddathlu gwyliau rhyngwladol, er enghraifft y flwyddyn newydd Tsieineaidd. Mae hyn yn atgyfnerthu ymwybyddiaeth y disgyblion o wahanol ieithoedd a diwylliant byd-eang. Er hynny, nid yw'r agwedd hon wedi'i datblygu'n llawn.

**Addysgu: Digonol**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gyfredol. Maent yn defnyddio ystod o arddulliau addysgu ac yn cynllunio gweithgareddau i sbarduno diddordeb y disgyblion. Mewn hanner y gwersi mae gweithgareddau wedi eu gwahaniaethu'n briodol, ond nid yw hon yn arfer gyson.

Gwneir defnydd priodol o adnoddau i gyfoethogi'r dysgu gyda chyfleoedd rheolaidd i'r disgyblion ddatblygu medrau technoleg a chyfathrebu. Mae pob un aelod o staff yn modelu iaith dda.

Mewn lleiafrif o'r gwersi, nid yw amcanion y wers na'r meini prawf yn cael eu rhannu'n effeithiol gyda'r disgyblion. Nid yw'r tasgau wedi eu gwahaniaethu ddigon i ymateb i anghenion pob disgybl ac mae disgwyliadau'r athrawon yn rhy isel, yn enwedig o ran herio'r disgyblion mwy abl.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio strategaethau asesu ar gyfer dysgu ond nid ydynt wedi datblygu'n gyson ar draws yr ysgol. Prin yw'r dystiolaeth o ddisgyblion yn asesu gwaith ei gilydd. Er bod gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn cael ei farcio'n rheolaidd, nid yw sylwadau ysgrifenedig athrawon ar waith disgyblion bob amser yn eu galluogi i wella eu gwaith. Nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ailddrafftio eu gwaith er mwyn gwella eu hymdrechion cyntaf.

Mae'r ysgol yn dechrau defnyddio asesiadau i lefelu gwaith y disgyblion mewn llythrennedd a rhifedd. Er hynny, nid yw eto wedi datblygu'n llawn yng nghyfnod allweddol 2. Mae gan yr ysgol systemau olrhain cynnydd disgyblion priodol ar waith. Er hynny, nid ydynt yn cael eu defnyddio yn ddigon effeithiol i dargedu grwpiau penodol o ddysgwyr.

Mae'r adroddiadau i rieni'n rhoi sylw priodol i gynnydd a datblygiad eu plant. Caiff rhieni gyfleoedd priodol i drafod cynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gofalgar a hapus lle rhoddir sylw penodol i les disgyblion. Datblygir agweddau moesol ac ysbrydol y disgyblion yn briodol trwy wasanaethau boreol lle mae aelodau o'r gymuned a sefydliadau crefyddol yn cyfrannu'n effeithiol.

Caiff iechyd a ffitrwydd y disgyblion eu hyrwyddo'n effeithiol gan glybiau chwaraeon amrywiol. Mae'r cyfan yn rhan gynhenid o fywyd bob dydd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn cymryd rhan amlwg yng ngweithgareddau'r gymuned. Mae'r cysylltiadau hyn yn gryfder yn yr ysgol ac yn datblygu medrau cymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau allanol ac o ganlyniad mae ansawdd y gofal a'r gynhaliaeth i'r disgyblion yn dda. Trwy gydweithio gyda'r awdurdod a gosod strategaethau ar waith i godi canrannau presenoldeb, mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i'r sefyllfa. Defnyddia'r ysgol ystod o strategaethau yn effeithiol i fodloni anghenion grwpiau gwahanol o ddisgyblion gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r ysgol yn ymwybodol o anghenion grwpiau penodol o blant ac yn defnyddio'r grantiau yn effeithiol i hyrwyddo gwelliant yn eu medrau llythrennedd. Llwydda'r ysgol yn dda i adnabod yn fuan y disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol ac mae'r ysgol yn ymateb yn brydlon i bryderon. Mae ganddi system olrhain a monitro effeithiol sy'n dangos cynnydd ac yn hwyluso pennu targedau gwelliant. Mae'r ysgol ar y cyd â'r disgyblion yn darparu cynlluniau addysgu unigol sy'n gosod targedau clir a mesuradwy. Caiff rhain eu monitro a'u diweddaru yn gyson ac maent yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r athrawon yn defnyddio cymorth arbenigol mewn sawl agwedd o'i gwaith ac mae hyn yn cyfrannu'n dda i les a chynnydd y disgyblion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned glos a chroesawgar a cheir awyrgylch cynnes ymhlith y staff a'r disgyblion. Dengys y rhan fwyaf o ddisgyblion barch tuag at eraill. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth cymdeithasol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r adeilad a'r adnoddau. Gwneir defnydd effeithiol o'r ardal tu allan i gyfoethogi profiadau'r Cyfnod Sylfaen. Mae arddangosfeydd lliwgar a symbylus yn cyfoethogi'r addysgu a'r dysgu'n dda. Mae'r toiledau'n lân ac yn addas a chaiff y safle a'r adeilad eu cynnal a chadw'n briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth sy'n cael ei rhannu gyda staff, disgyblion a rhieni'r ysgol. Mae ymdeimlad cryf o dîm lle mae pawb yn gweithredu'n effeithiol ar godi safonau llythrennedd a gwella safonau mathemateg, yn unol â blaenoriaethau'r ysgol. Ar hyn o bryd, nid yw'r arweinyddiaeth wedi mynd i'r afael yn llawn â'r anghysondeb mewn asesu, ac nid yw'r cwricwlwm cyflawn wedi'i ddatblygu'n ddigonol yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r staff i gyd, gan gynnwys y cymorthyddion, yn cydweithio'n dda. Fodd bynnag, er bod y staff yn cwrdd yn aml, anffurfiol yw'r cyfarfodydd ac nid oes digon o strwythur iddynt.

Llwydda'r ysgol ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, trwy fynd i afael yn bennaf â chodi safonau llythrennedd a rhifedd. Mae'r Cyfnod Sylfaen wedi'i sefydlu yn yr ysgol. Mae'n hyrwyddo dwyieithrwydd y disgyblion, a thrwy gynnal clwb brecwast, mae'r ysgol yn mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd a chymdeithasol.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol i'r ysgol. Mae nifer wedi derbyn hyfforddiant ac maent yn cychwyn ar y daith o fod yn gyfeillion heriol a beirniadol i'r ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn ymwybodol o berfformiad cyffredinol yr ysgol. Er hynny, nid yw eu dealltwriaeth o ddata wedi datblygu'n llawn i herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad. Trwy ymweld â'r ysgol ac arsylwi ar y dysgu, mae'r corff llywodraethol yn dechrau cyfrannu at bennu blaenoriaethau ysgol gyfan.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol wedi ei seilio'n briodol ar ystod o dystiolaeth sy'n cynnwys arsylwadau dosbarth i fonitro ansawdd yr addysgu a'r dysgu. Mae'r

ysgol hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o adroddiadau monitro'r awdurdod lleol a holiaduron disgyblion a rhieni i gasglu eu safbwyntiau'r am fywyd a gwaith yr ysgol. Er bod yr adroddiad hunan arfarnu yn cynnwys peth dadansoddiad o ddata, nid oes digon o fanyldeb ac mae tueddiad iddo fod yn rhy ddisgrifiadol. Ni ddefnyddir data yn ddigon effeithiol i osod targedau heriol a meintiol. Nid yw'n nodi'r effaith ar gyflawniad disgyblion yn ddigon cyson.

Mae cyswllt rhannol rhwng deilliannau'r broses hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol ond nid yw hyn yn ddigon cryf. Mae'r cynllun datblygu ysgol yn nodi targedau priodol ac yn cynnwys camau a therfynau amser addas. Fodd bynnag, nid oes digon o ddefnydd o feini prawf meintiol i helpu â mesur cynnydd. Mae cyfrifoldebau gweithredu wedi eu dyrannu'n briodol i wahanol aelodau staff, ond eto nid yw'r cynnydd yn cael ei fonitro yn ddigon effeithiol.

Mae'r ysgol yn ymdrechu o fewn cyfyngiad cyllidol i sicrhau bod y staff yn datblygu'n broffesiynol. Mae'r ysgol yn dechrau cydweithio ag ysgolion y clwstwr ac wedi cychwyn datblygu rhwydweithiau o arfer broffesiynol briodol er mwyn codi safonau mewn mathemateg.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni. Mae ffrindiau'r ysgol a'r cyflogwyr lleol wedi helpu'n sylweddol i brynu adnoddau ac i wella ardal allanol yr ysgol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned ac mae cysylltiadau da rhwng yr ysgol a'r eglwys a chapeli lleol.

Mae partneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r brifysgol leol. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig lleoliad i fyfyrwyr o'r ysgol uwchradd leol.

Mae cynlluniau trosglwyddo rhwng yr ysgol a'r ysgolion uwchradd yn galluogi disgyblion hŷn i gael eu paratoi'n briodol ar gyfer y cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae disgyblion yr ysgol yn cael y cyfle i ymweld â'r ysgol uwchradd leol er mwyn medru gwneud y dewis ar gyfer eu dyfodol. Er bod y bartneriaeth yn briodol nid yw'r cynlluniau pontio yn cyfrannu digon at hyrwyddo parhad mewn dysgu a lles.

Mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio gydag ysgolion y clwstwr, i ddatblygu cynlluniau gwaith; serch hynny nid yw'r bartneriaeth hon wedi datblygu'n llawn eto.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o asiantaethau'r awdurdod lleol sy'n cael effaith gadarnhaol ar les y disgyblion.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae digon o athrawon yn yr ysgol ac mae ganddynt gymwysterau priodol i'r oedrannau a addysgant. Caiff athrawon eu cefnogi'n effeithiol gan y cymorthyddion dosbarth sy'n rhoi cymorth priodol i unigolion neu grwpiau o ddisgyblion yn y gwersi. Mae'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae'r adeiladau yn darparu amgylchedd dysgu ac addysgu effeithiol. Mae nifer ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael i'r disgyblion a'r athrawon yn briodol. Mae

adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu gan gynnwys cyfrifiaduron a byrddau gwyn rhyngweithiol yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer rheoli perfformiad.

Mae'r corff llywodraethol yn trin a thrafod cyllideb flynyddol yr ysgol yn briodol ac yn monitro'r gyllideb yn effeithiol.

O ystyried y safonau ac ansawdd y ddarpariaeth, mae'r ysgol yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sydd yn yr ysgol, rhaid trin y data yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Nid yw cyflawniad y disgyblion sy'n cyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn cymharu'n dda gydag ysgolion y teulu, nac ychwaith ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Mae'n gosod yr ysgol yn y 25% isaf mewn medrau Iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg ac mewn datblygiad mathemategol. Ni lwyddodd unrhyw blentyn i gyrraedd y deilliant uwch (deilliant 6) mewn unrhyw faes dysgu yn 2012. O ganlyniad, mae hyn yn gosod yr ysgol yn y 25% isaf ymhob maes dysgu.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth mewn cyfuniad wedi amrywio dros amser ond mae cynnydd i'w weld dros y ddwy flynedd diwethaf. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r ganran o ddisgyblion a gyflawnodd lefel 4 mewn Cymraeg wedi bod yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf, tra mae'r canran a gyflawnodd lefel 4 mewn Saesneg wedi bod yn is am dair o'r pum mlynedd hynny. Mae perfformiad mewn darllen ac ysgrifennu Cymraeg wedi bod yn sylweddol is na ffigyrau teulu a Chymru am gyfnod o amser. Tebyg yw'r patrwm yn y Saesneg.

Mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig, lefel 4 mewn mathemateg a gwyddoniaeth, yn cymharu'n dda iawn ag ysgolion y teulu ac yn gyffredinol yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Nid yw cyflawniad disgyblion ar lefel 5 neu uwch mewn Cymraeg Saesneg a mathemateg yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau'r teulu dros y pum mlynedd ddiwethaf.

Oherwydd y niferoedd bach sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnod, mae'n anodd dod i farn glir ynglŷn â pherfformiad bechgyn a merched. Er hynny, yn gyffredinol mae'r bechgyn yng nghyfnod allweddol 2 yn perfformio'n well na'r merched ar y lefel uwch mewn gwyddoniaeth. Mae cyflawniad y disgyblion sy'n hawlio cinio am ddim yn perfformio cystal â gweddill y disgyblion.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 23 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2.

Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer bron pob agwedd.

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni neu'n gofidio. Mae'r mwyafrif y disgyblion yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio sydd yn is na'r ffigwr cenedlaethol. Mae pob disgybl yn teimlo eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae pob disgybl yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd.

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron rhieni oherwydd y nifer bach o ymatebion a dderbyniwyd (llai na 10).

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Terry Williams | Arolygydd Tîm |
| Dylan Jones | Arolygydd Lleyg |
| Wynne Griffiths | Arolygydd Cymheiriaid |
| Elizabeth Howells | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.